**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Rhagfyr 14eg 2016 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Elen Edwards, Gwydion Jones

Presennol: Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Einir Williams, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwyn Williams a'r Clerc

Dewiswyd Ian W Griffith i gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd. Mynegwyd llongyfarchiadau i'r Cadeirydd Gwydion Jones ac Elen ar enedigaeth Alys Grug.

61.1 DATGAN CYSYLLTIAD - rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

61.2 LLWYBR CYHOEDDUS GER TAFARN Y BONT – bydd cyfarfod safle yno ddydd Gwener Rhagfyr 16eg a diolchwyd i Diane Roberts sy'n gobeithio mynychu.

61.3 MATERION FFYRDD
61.3.1 PONT AFON DYFFRYN GALL – derbyniwyd ebost gan swyddog Conwy, Bryn Shilland yn nodi dylai gwaith ar y bont gael ei gwblhau ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror.
61.3.2 PONT HENDRE DDU – yn yr un ebost nodwyd y dylai'r gwaith ddechrau ar y bont yn ystod mis Chwefror. PENDERFYNWYD i ddatgan ein bod yn siomedig bod yn gwaith yn cymryd cymaint o amser ac y dylent wneud pob ymdrech i orffen y gwaith erbyn y dyddiad.
61.3.3 ALLT WATERLOO – derbyniwyd ebost yn nodi eu bod am gadw golwg manwl ar yr allt yn y flwyddyn newydd ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. PENDERFYNWYD gofyn iddynt roi adroddiad ysgrifenedig i ni ddechrau'r flwyddyn.

61.4 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/43459 Diwygio manylion tyrbin gwynt a gymeradwywyd yn flaenorol dan gôd rhif 0/41886 gyda mesuriadau newydd ar ffurf: uchder o 35m i'r canolbwynt a 61m at frig y llafn, diamedr llafnau troell o 52m ac allbwn o 500kw a'r holl waith cysylltiedig yn Bodwrach, Carmel, Llanrwst gan E Owen & Co – PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais ond roedd Diane Roberts yn gwrthwynebu ac i nodi wrth yr Adran Cynllunio nad oedd yn gefnogaeth unfrydol.

61.5 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon eitemau i'r aelodau ar ebost - Rheoliadau drafft Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2016 (Llywodraeth Cymru) a Cofrestr Etholwyr.

61.6 CIOSG FFÔN – cafwyd manylion am bosibiliadau gyda'r ciosg – Community Heartbeat Trust a Welsh Ambulance Trust.

61.7 CYFARFOD CYHOEDDUS GYDA CARWYN JONES, PRIFWEINIDOG – nos Iau Ionawr 19eg yn Llanrwst.

61.8 MATERION LLEOL
61.8.1 Twll yn ffordd Glan Collen wrth fynd am yr ysgol.
61.8.2 Diolchwyd i Ann am blannu blodau yn Llangernyw a Phandy Tudur ac i Emlyn am blannu yng Ngwytherin.
61.8.3 Angen gofyn pryd mae band eang cyflym yn dod i Wytherin.
61.8.4 Cerrig man yn rhydd rhwng Pont Rhydlechog a Rhos Isa, ar ffordd Gwytherin am Lansannan ar ôl tario'r ffordd yn ystod yr haf.
61.8.5 Y Clerc i anfon cerdyn i longyfarch Gwydion ac Elen ar enedigaeth Alys a dymuno'n dda iddynt. Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

61.9 BILIAU
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (gosod Diffibrilydd yn Llangernyw) £166

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 yh

*Cymeradwywyd y Cofnodion …G A Jones…………………………… Dyddiad 17/1/1*

Community Council Meeting was held on Wednesday 14 December 2016 at 7.30 pm at the Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Elen Edwards, Gwydion Jones

Present: Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Einir Williams, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwyn Williams and Clerk

Ian W Griffith was elected to chair the meeting in the absence of the Chairman. He expressed congratulations to the Chairman Gwydion Jones and Elen on the birth of Alys Grug.

61.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

61.2 PUBLIC FOOTPATH NEAR BRIDGE INN - a site meeting is arranged for Friday December 16 and Diane Roberts is hoping to attend.

61.3 ROAD MATTERS
61.3.1 DYFFRYN GALL BRIDGE - received an email from Conwy officer, Bryn Shilland noting that work on the bridge should be completed in late January / early February.
61.3.2 HENDRE DDU BRIDGE - email noted that work should start on the bridge during February. RESOLVED to state that we are disappointed that the work has taken so long and they should make every effort to complete the work by the deadline.
61.3.3 WATERLOO HILL - received an email stating that Conwy will keep a close eye on the hill in the new year and report back to the Community Council. RESOLVED to ask them to present a written report at the beginning of the new year.

61.4 PLANNING APPLICATION NO 0/43459 Amendment to wind turbine details previously approved under code number 0/41886 with new measurements in the form of: a hub height of 35m and 61m to the top of the blade, rotor diameter of 52m and a spiral of 500kW output and all

associated works in Bodwrach, Carmel, Llanrwst by E Owen & Co. - RESOLVED to support the proposal but Diane Roberts opposed and to inform the Planning Department that voting was not unanimous.

61.5 CORRESPONDENCE - the Clerk to send items to the members by email - The draft Accounts and Audit (Wales) Regulations 2016 (WG) and Register of Electors.

61.6 PHONE KIOSK - there were details of possibilities with the kiosk - Community Heartbeat Trust and Welsh Ambulance Trust.

61.7 PUBLIC MEETING WITH CARWYN JONES, FIRST MINISTER - Thursday January 19 in Llanrwst.

61.8 LOCAL MATTERS
61.8.1 Pothole in road in Glan Collen ond the way to the school.
61.8.2 Ann was thanked for planting flowers in Pandy Tudur and Llangernyw and Emlyn for planting in Gwytherin.
61.8.3 Need to ask when high-speed broadband will reach Gwytherin.
61.8.4 Loose chippings between Rhydlechog Bridge and Rhos Isaf on Gwytherin to Llansannan road following resurfacing in the summer.
61.8.5 The Clerk to send a card to congratulate Gwydion and Elen on the birth of Alys and wish them well. Best wishes for a Merry Christmas and Happy New Year to everyone.

61.9 BILLS
Conwy County Borough Council (install Llangernyw Defibrillator) £ 166

The meeting ended at 8.30 pm

Approved the Minutes ..G A Jones............................. Date .....17/1/17........................... ..